# Blynyddoedd Cynnar

ADRODDIAD PROSIECT

The Exchange



## Cymorth Gwydnwch yn Seiliedig ar Dystiolaeth i Deuluoedd â Phlant 2-7 oed

The Exchange yn gweithio mewn partneriaeth â *Cwm Taf Morgannwg*



Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Cwm Taf

Cwm Taf Morgannwg Early Years Transformation Programme

Yn gweithio mewn partneriaeth â

GIG CYMRU NHS WALES

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Merthyr Tydfil County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Rhondda Cynon Taf

The Property of Therapeutic Counselling Services © 2024

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad: Ynglŷn â The Exchange | 3 |
| Nodau'r Prosiect a'r Model Cyflawni | 4 |
| Rhaglenni The Exchange | 5 |
| Strwythur, Llwybrau a Throsolwg Rhanbarthol | 6 |
| Canfyddiadau Allweddol a Data Canlyniadau | 7 |
| Egluro Data Effaith | 8 |
| Demograffeg | 9 |
| Cymharu Gweithgarwch ar draws Ardaloedd | 11 |
| Rhondda Cynon Taf | 13 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 14 |
| Merthyr | 15 |
| Dysgu Allweddol ac Addasiadau | 16 |
| Astudiaethau Achos | 17 |
| Adborth | 21 |


Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Cwm Taf

Cwm Taf Morgannwg Early Years Transformation Programme

Mae'r holl gynnwys yn y ddogfen hon ac unrhyw ffeiliau cysylltiedig yn eiddo deallusol i'r Gwasanaethau Cwnsela Therapiwtig ac ni ddylid eu copïo na'u rhannu heb ganiatâd ymlaen llaw.

The Exchange

## Ynglŷn â The Exchange

Mae The Exchange yn rhan o **The TCS Group** - sef sefydliad lles seicolegol sydd â dros deunaw mlynedd o brofiad yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion. Mae The Exchange yn arbenigo mewn cefnogi iechyd meddwl a lles plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ar hyn o bryd rydyn ni'n darparu ystod o wasanaethau mewn 767 o ysgolion, colegau a chymunedau, gan weithio mewn partneriaeth â 10 awdurdod lleol. Mae ganddon ni ddiddordeb yn y maes lles ac mae ein tîm o seicolegwyr, cwnselwyr, arbenigwyr Thera-chwarae ac ymarferwyr yn darparu cymorth ar sail tystiolaeth a hyfforddiant achrededig fel rhan o ymagwedd system gyfan tuag at wella lles meddwl sy'n canolbwyntio ar wydnwch.

Mae Exchange Families wedi'i sefydlu i gefnogi datblygiad gwydnwch ymhlith y blynyddoedd cynnar, plant ysgol gynradd, a rhieni/gofalwyr o bob oed.

Mae Exchange Youth yn cynnig cymorth lles seicolegol i bobl ifanc 11-25 oed mewn ysgolion a chymunedau lleol.

Mae Exchange Resource yn darparu addysg achrededig, hyfforddiant ac adnoddau i staff ysgol a staff cymorth sy'n cefnogi pobl ifanc.

Sut beth yw hyn?

- Cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned
- Cymorth cwnsela ar-lein
- D-EXY, ein Ap lles digidol
- Thera-chwarae/cwnsela
- Gwaith grŵp
- Rhaglenni gwydnwch
- Ioga gwydnwch
- Gweithdai seico-addysg
- Cymorth NEET
- Cyfres o hyfforddiant digidol
- Hyfforddiant wyneb yn wyneb a rhithwir
- Cymwysterau staff
- Hyfforddiant ac adnoddau ADY wedi'u teilwra

### Sut mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn seiliedig ar dystiolaeth?

Mae'r model ar sail adnoddau o ddatblygu lles seicolegol iach yn llywio pob gweithgaredd, ymyriad a chymorth a ddarperir gan The Exchange. Ymagwedd ar sail trawma a chryfder yw hyn, sy'n darparu fframwaith ar gyfer asesu anawsterau iechyd meddwl a hyrwyddo datblygiad gwydnwch iach drwy ymyriadau mesuradwy wedi'u targedu.



# Nodau

Comisiynwyd The Exchange ddarparu cymorth lles i blant 2-7 oed a'u teuluoedd ym Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, a Rhondda Cynon Taf fel rhan o Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Cwm Taf rhwng Hydref 2022 a Hydref 2023. Estynnwyd y contract hyd at Mawrth 2024.

Nod y prosiect oedd gwella gwydnwch plant a theuluoedd drwy raglenni ar sail tystiolaeth oedd yn targedu 3 angen iechyd meddwl ysgafn i gymedrol:

1. **Anawsterau gorbryder**
2. **Rheoli ymddygiad a rheoli emosiynau**
3. **Arwahanrwydd cymdeithasol**

# Model Cyflwyno

Roedd The Exchange yn darparu ymyriadau ar sail tystiolaeth a oedd yn targedu adnoddau gwydnwch sy'n gysylltiedig â gorbryder, rheoli emosiynau, ac arwahanrwydd cymdeithasol. Defnyddiwyd ymagwedd hyblyg wrth ei gyflwyno, er mwyn ymateb i anghenion y plant a'r teuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys cyfuniad o sesiynau ar gyfer y plentyn, sesiynau ar gyfer y rhieni, a sesiynau lle roedd y plant a'r rhieni yn cymryd rhan gyda'i gilydd.

- Roedd y prosiect yn cynnwys cydweithio gyda phartneriaid ar draws Cwm Taf Morgannwg i ddarparu gwasanaeth esmwyth i deuluoedd.
- Roedd ymarferwyr a rhieni'n gwneud atgyfeiriadau drwy borth ar-lein ar wefan The Exchange
- Roedd rhieni'n cymryd rhan mewn asesiad cychwynnol i nodi rhaglen addas. Darparwyd cymorth wyneb yn wyneb (Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful) ac yn rhithwir. Roedd y canlyniadau'n adrodd ar 'symptomau anhawster' ac 'adeiladu ffactorau amddiffynnol gwydnwch' ar gyfer y rhieni a'r plant.
- Crëwyd cynlluniau gweithredu aml-asiantaeth gyda'r teulu a oedd yn amlinellu'r cymorth a'r cynnydd a wnaed, yn nodi meysydd cymorth parhaus, a darparwyd y pecynnau adnoddau i rieni ac ymarferwyr.
- Darparwyd adborth rheolaidd i bartneriaid drwy gyfarfodydd adrodd ac aml-asiantaeth a gydlynwyd gan Arweinydd Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar.
- Mynychodd The Exchange Fwrdd Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar i gyflwyno canlyniadau'r prosiect.

**Teuluoedd lle mae'r rhieni'n cael trafferth yn ymdopi â rheoli ymddygiad plentyn 2-7 oed (ond lle na fyddai cymorth rhianta yn effeithiol).**




Mae'r rhaglen **Lindys i Löyn Byw** yn targedu 3 dimensiwn gwydnwch; Mae gen i; Perthyn (adnoddau allanol), Rydw i: Datblygiad yr Hunan (adnoddau mewnol), Gallu: Rhyngweithio ag Eraill (adnoddau cymdeithasol). Caiff hyn ei gyflawni orau drwy weithio gyda'r teulu cyfan drwy broses chwe cham gan ddefnyddio ystod o weithgareddau creadigol a dychmygus.




Mae rhaglen **Allwedd i Fi** yn hyrwyddo datblygiad hunan-werth ac yn cefnogi rhieni i gefnogi anghenion datblygiad emosiynol eu plant. Mae rhieni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin gwydnwch sy'n cynnig budd therapiwtig i'w hunaniaeth a'u hyder i fod yn rhiant ac yn dysgu sut i ddefnyddio'r gweithgareddau gartref i gefnogi eu plentyn.
Mae **Allwedd i Fi** yn targedu 5 adnodd gwydnwch mewnol allweddol.

**Ar gyfer problemau iechyd meddwl/gorbryder ysgafn i gymedrol, mae The Exchange yn darparu dwy raglen; Tu Chwith a Mynydd y Ddraig.**




Mae rhaglen **Mynydd y Ddraig** yn seiliedig ar feddwlgarwch ac yn ceisio cefnogi plant a theuluoedd i ddatblygu agwedd iach tuag at ddelio â heriau, magu hyder yn eu gallu i reoli teimladau anodd a dysgu technegau rheoli emosiynau y gellir eu hailadrodd gartref.




Nod **Tu Mewn Tu Allan** yw helpu plant a theuluoedd i ddysgu ffyrdd iach o reoli straen, gorbryder a phoen emosiynol. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfres o weithgareddau creadigol sy'n targedu datblygiad hunanreoleiddio, mewnwelediad myfyriol a llythrennedd emosiynol.

**Teuluoedd (sydd â phlant 2-7 oed) sy'n cael eu hystyried fel eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymorth gan gymheiriaid neu deulu.**




Nod **Rwy'n Bwysig** yw cefnogi teuluoedd sy'n profi gwrthdaro, chwalfa ac arwahanrwydd. Mae gan y rhaglen 5 targed allweddol:

- Hyrwyddo Annibyniaeth
- Adfer Ymdeimlad o Ddiogelwch
- Magu Hunanhyder
- Datblygu Sgiliau Cyfathrebu
- Adeiladu Optimistiaeth




Mae **Yr Antur** yn cefnogi plant sy'n profi newidiadau mewn amgylchiadau. Mae'r rhaglen yn targedu datblygiad cymhwysedd cymdeithasol, hunanhyder ac optimistiaeth i helpu'r plentyn i wneud synnwyr o'r byd sy'n newid o'u cwmpas.

# Strwythur a Llwybrau

Ar ddechrau'r prosiect, nodwyd 'Arweinwyr' lleol o Ben-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf i gydweithio gyda The Exchange .

Sefydlwyd llwybr atgyfeirio i ymarferwyr ar draws y rhanbarth wneud cais am gymorth i deuluoedd drwy exchange-counselling.com

**Meini Prawf Atgyfeirio:**

- Teuluoedd lle mae ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn teimlo bod gan y rhieni neu'r plentyn/plant broblemau iechyd meddwl/gorbryder ysgafn i gymedrol.

- Teuluoedd (sydd â phlant 2-7 oed) sy'n cael eu hystyried fel eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymorth gan gyfoedion neu deulu.

- Teuluoedd lle mae'r rhieni'n cael trafferth yn ymdopi â rheoli ymddygiad plentyn 2-7 oed (ond lle na fyddai cymorth rhianta yn effeithiol).

Comisiynwyd y prosiect i gefnogi hyd at **230** o deuluoedd. Derbyniwyd cyfanswm o **364** o atgyfeiriadau.

Defnyddiodd ystod eang o ymarferwyr ar draws y rhanbarth y ddarpariaeth.

## Proses

Atgyfeiriad gan riant neu ymarferydd drwy exchange-counselling.com → Asesiad Cychwynnol gyda Rhieni/Gofalwyr → Sesiynau Rhaglen Wythnosol (hyd at 5) → Sesiwn Cynllunio Camau

## Trosolwg o Weithgarwch ar draws y Rhanbarth

**364** o atgyfeiriadau wedi'u derbyn

**276** o deuluoedd wedi'u cyrraedd

**88** Wedi cau - Dim cyswllt / optio allan

**241** Cymorth wedi'i gwblhau

**35** Wedi dad-gysylltu o'r cymorth

# Canfyddiadau Allweddol

## Ffigurau Cwblhau Cyffredinol

**87%** o'r teuluoedd a ddaeth i gysylltiad â chymorth ar draws y rhanbarth wedi cwblhau'r ymyriad

## Nifer y Teuluoedd a Gefnogwyd

**241** o deuluoedd wedi cwblhau'r ymyriadau

*Y prif reswm dros ddad-gysylltu a adroddwyd gan deuluoedd oedd*

*'y gallu i deithio i'r lleoliadau'*

*Cynigiwyd cymorth rhithwir ond nid oedd y contract yn caniatáu i* The Exchange *ddefnyddio ysgolion fel lleoliad ym Mhen-y-bont ar Ogwr na Rhondda Cynon Taf, a achosodd rwystr rhag mynediad.*

## Mesurau Canlyniad

**Canlyniad 1 –** Lleihad mewn **'symptomau anhawster'** Adroddwyd gan y Rhieni/Gofalwyr.

Mesurwyd yn defnyddio'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ).

**Canlyniad 2 –** Gwelliant mewn **'adeiladu ffactorau amddiffynnol gwydnwch'** Adroddwyd gan y Plant.

Mesurwyd gan ddefnyddio'r dull Adeiladu Asesu Gwerthuso Gwydnwch (BEAR)

**Canlyniad 3 –** Gwelliant mewn **'hunan-effeithiolrwydd rhieni'** Adroddwyd gan y Rhieni/Gofalwyr.

Mesurwyd gan ddefnyddio Graddfa Gryno Hunan-effeithiolrwydd Rhieni (BPSES)

## Data Canlyniadau

**Canlyniad 1** **80%** o'r rhieni'n adrodd am ostyngiad mewn symptomau

**Canlyniad 2** **77%** o'r plant yn adrodd am welliant mewn gwydnwch

**Canlyniad 3** **79%** o'r rhieni'n adrodd am welliant mewn hunan-effeithiolrwydd:

- gwybodaeth rhieni
- hyder rhieni
- sgiliau a thechnegau rhieni
- perthnasau teuluol

*Cwblhaodd y rhieni'r SDQ ar ddechrau a diwedd yr ymyriad.*

*Cwblhawyd y BEAR gyda phlant 5-7 oed. Dyluniwyd y BEAR i ymgysylltu'r plant mewn asesiad gwydnwch gan ddefnyddio cardiau lluniau, ond mae hyn yn ddibynnol ar oedran a cham pob plentyn.*

***Cwblhaodd 55% o'r plant yn y prosiect yr asesiad BEAR i ddarparu data canlyniadau o safbwynt y plentyn.***

# Egluro Effaith

Roedd y data canlyniadau'n dangos bod y rhieni'n adrodd y newidiadau mwyaf sylweddol ar raddfeydd 'symptomau emosiynol' a 'problem ymddygiad' yr SDQ. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni sgôr SDQ iachach ar y diwedd. Roedd llawer o'r teuluoedd yn cael cymorth ar gyfer anghenion niferus ac yn aros am asesiad pellach (e.e. llwybrau niwroamrywiaeth).

Adroddodd y plant (5-7 oed) y gwelliannau mwyaf nodedig mewn hunan-reoleiddio, datrys problemau, meddwl dilynol, cymhwysedd cymdeithasol a datrys gwrthdaro a hunan-werth.

## Sgoriau Dechrau a Diwedd Clinigol Cyfartalog

| Mesur Perfformiad | Sgôr Dechrau Cyfartalog | Sgôr Diwedd Cyfartalog | Gwelliant Cyfartalog % |
|---|---|---|---|
| SDQ | 23 *Anhawster uchel iawn* | 17 *Ychydig o anhawster* | 78% |
| BEAR Assessment | 44 Gwydnwch cymedrol | 55 *Gwydnwch cymedrol* | 80% |

## Disgrifyddion Sgôr

| Asesiad | Ystod o Sgoriau | Disgrifydd |
|---|---|---|
| SDQ | 21 - 40<br>17 - 20<br>14 - 17<br>0 - 13 | Anhawster uchel iawn<br>Anhawster uchel<br>Ychydig o anhawster<br>Arferol |
| BEAR Assessment | 0 - 15<br>16 -40<br>41 - 60<br>61 - 75 | Gwydnwch isel iawn<br>Gwydnwch isel<br>Gwydnwch cymedrol<br>Gwydnwch uchel - uchel iawn |

# Demograffeg



Teuluoedd a atgyfeiriwyd

# 364

## Oedran Atgyfeirio




## Rhesymau Atgyfeirio




Cofrestrodd

**36%**

o'r plant anghenion dysgu ychwanegol

# Demograffeg



## Ffynhonnell Atgyfeiriad




## Anghenion Teuluol Ychwanegol

*Pan estynnwyd y contract am chwe mis arall, casglwyd data ychwanegol i ddeall mwy am y teuluoedd oedd yn defnyddio'r cymorth.*



Gweithgarwch yn ôl Ardal

*Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf*

## Atgyfeiriadau ar draws y Rhanbarth

Gan gynnwys Rhieni




### Anghenion Lleol

**Rheswm atgyfeirio mwyaf poblogaidd**

Merthyr – Gorbryder

Pen-y-bont – Ymddygiad

RhCT – Rheoli emosiynau

## Ffynhonnell Atgyfeiriad

| | | Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend | Merthyr Tydfil / Merthyr Tudful | Rhondda Cynon Taf |
|---|---|---|---|---|
| **Teuluoedd Cydnerth** | 161 | | | ● |
| **Barnardos** | 4 | | ● | |
| **Hyb Cymorth Cynnar** | 3 | | ● | |
| **Meddyg Teulu** | 8 | ● | | ● |
| **Ymwelydd Iechyd** | 49 | ● | ● | ● |
| **MIND** | 1 | | | ● |
| **Rhiant** | 12 | ● | ● | ● |
| **Yr Ysgol** | 33 | ● | ● | ● |
| **Gweithiwr Cymdeithasol** | 4 | ● | ● | ● |
| **Gweithiwr Cymorth** | 35 | ● | | ● |

## Ymgysylltiad









# Teuluoedd Rhondda Cynon Taf a Gefnogwyd

**239**
o atgyfeiriadau wedi'u derbyn

**178**
o deuluoedd wedi'u cyrraedd

**154**
Cymorth wedi'i Gwblhau

**24**
Wedi dad-gysylltu o'r cymorth

**61**
Wedi cau - Dim cyswllt / optio allan

Rhieni/gofalwyr a adroddodd welliant yn eu plentyn **78%**

Plant a gofrestrodd welliant mewn gwydnwch **77%**

| **Cwblhawyd gan** | **Sgôr Dechrau Cyfartalog** | **Sgôr Diwedd Cyfartalog** | **Mesur Perfformiad** |
|---|---|---|---|
| Rhieni/Gofalwyr | *23 *Anhawster uchel iawn* | 17 *Ychydig o anhawster* | SDQ |
| Plant (5-7 oed) | 44 *Cymedrol* | 55 *Cymedrol/Uchel* | BEAR Assessment |

**Ar gyfartaledd, adroddodd rhieni lefel uwch o drallod o gymharu â rhieni ledled Cymru a'r Alban sy'n cael eu cefnogi gan The Exchange*

# Teuluoedd Pen-y-bont ar Ogwr a Gefnogwyd

**84**
o atgyfeiriadau wedi'u derbyn

**60**
o deuluoedd wedi'u cyrraedd

| **52** | **8** | **24** |
|---|---|---|
| Cymorth wedi'i gwblhau | Wedi dad-gysylltu o'r cymorth | Wedi cau - Dim cyswllt / optio allan |

Rhieni/gofalwyr a adroddodd welliant yn eu plentyn **80%**

Plant a gofrestrodd welliant mewn gwydnwch **78%**

| **Cwblhawyd gan** | **Sgôr Dechrau Cyfartalog** | **Sgôr Diwedd Cyfartalog** | **Mesur Perfformiad** |
|---|---|---|---|
| Rhieni/Gofalwyr | *22<br>*Anhawster uchel iawn* | 16<br>Ychydig o anhawster | SDQ |
| Plant<br>(5-7 oed) | 44<br>*Cymedrol* | 54<br>Cymedrol/Uchel | BEAR Assessment |

**Ar gyfartaledd, adroddodd rhieni lefel uwch o drallod o gymharu â rhieni ledled Cymru a'r Alban sy'n cael eu cefnogi gan* The Exchange

# Teuluoedd Merthyr Tudful a Gefnogwyd

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

**41**
o atgyfeiriadau wedi'u derbyn

**38**
o deuluoedd wedi'u cyrraedd

**35**
Cymorth wedi'i gwblhau

**3**
Wedi dad-gysylltu o'r cymorth

**3**
Wedi cau - Dim cyswllt / optio allan

Rhieni/gofalwyr a adroddodd welliant yn eu plentyn **80%**

Plant a gofrestrodd welliant mewn gwydnwch **78%**

| **Cwblhawyd gan** | **Sgôr Dechrau Cyfartalog** | **Sgôr Diwedd Cyfartalog** | **Mesur Perfformiad** |
|---|---|---|---|
| Rhieni/Gofalwyr | *23<br>*Anhawster uchel iawn* | 17<br>Ychydig o anhawster | SDQ |
| Plant<br>(5-7 oed) | 45<br>*Cymedrol* | 55<br>*Cymedrol/Uchel* | BEAR Assessment |

**Ar gyfartaledd, adroddodd rhieni lefel uwch o drallod o gymharu â rhieni ledled Cymru a'r Alban sy'n cael eu cefnogi gan* The Exchange

# Dysgu Allweddol ac Addasiadau

Yn ystod yr adolygiad contract, penderfynwyd estyn y contract am chwe mis arall oherwydd y canlyniadau cadarnhaol. Amlygodd The Exchange gyfleoedd ar gyfer gwella er mwyn ymateb i'r gwahanol lefelau o angen a oedd ymhlith y plant a'r teuluoedd. Crëwyd ymagwedd haenog o gymorth a'i rhoi ar waith ar gyfer y cyfnod estyniad contract o chwe mis (Hydref 23 - Mawrth 24).

### Lefel 1 Gweithdai Rhithwir

Rhaglen bedair wythnos i rieni oedd yn dymuno dysgu technegau a gweithgareddau i gefnogi lles emosiynol eu plentyn.

Roedd pedwar thema: cefnogi gorbryder, hyrwyddo hunan-werth, rheoli emosiynau a chymdeithasol, deall gwydnwch.

### Lefel 2 Rhaglenni Strwythuredig

Ymyriadau ar sail gwydnwch yn targedu'r tri mater allweddol a amlinellwyd gan Gwm Taf Morgannwg; gorbryder, rheoli emosiynau, arwahanrwydd cymdeithasol.

### Lefel 3 Ymyrraeth Bwrpasol

Thera-chwarae ar sail adnoddau sy'n targedu anghenion unigol y plentyn a'r teulu.
*Enghreifftiau: anghenion cymhleth, anghenion dysgu ychwanegol, anghenion ymgysylltu, trawma.*

## Lefelau Cymorth a Ddefnyddiwyd ar draws y Rhanbarth



# Astudiaeth Achos 1

**Rhaglen Grŵp Rhithwir: Rheoli Emosiynau a Chymdeithasol**
**Nifer y sesiynau grŵp: 4**
**Nifer y rhieni: 7**
**Ardal: RhCT**

**Disgrifiad o'r atgyfeiriad/rhesymau dros yr anhawster:**

**·Rheoli ymddygiad heriol**
**·Plant yn cael chwalfeydd rheolaidd**
**·Anawsterau'n rheoli emosiynau.**
**·Teimlo diffyg cymorth gan yr ysgol.**

**Arsylwadau a Chanlyniadau**

- Roedd gan lawer o'r rhieni a fynychodd blant ag anghenion cymorth ychwanegol, gyda rhai'n ddieiriau. Dangosodd yr ymarferydd wahanol ffyrdd o addasu gweithgareddau.
- Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn defnyddio'r grŵp i rannu eu hymatebion emosiynol eu hunain i ymddygiad heriol. Trafodon nhw beth oedd yn gweithio'n dda ac nad oedd yn gweithio'n dda mewn gwahanol sefyllfaoedd. Nododd rhieni eu lefelau gorbyrder eu hunain wrth ddelio ag ymddygiad heriol, a chawsant eu cefnogi i fynd i'r afael â hyn.
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rhieni a'r gofalwyr ynghylch defnyddio clai i ddenu diddordeb y plant yn un o'r gweithgareddau. Egluron nhw fod yr elfen synhwyraidd a'r dull o beidio rhoi cyfarwyddyd yn llwyddiannus wrth hwyluso'r plant i allanoli eu pryderon.
- Cynhyrchodd y gweithgaredd 'Rhyfeddodau Pum Munud' ddeialog rhwng y rhieni a'r gofalwyr. O ganlyniad, esblygodd y gweithgaredd i fod yn addas i anghenion pob plentyn
- Anogwyd y rhieni a'r gofalwyr i gwblhau pob gweithgaredd ochr yn ochr â'u plant. Yn ystod sesiynau dilynol, adroddodd y rhieni a'r gofalwyr fudd i'w hiechyd meddwl a'u lles eu hunain.
- Adroddodd y rhieni a'r gofalwyr bod strategaethau ymdopi ymarferol yn werthfawr, ac roedd y cyfle i gael gweld y gweithgareddau drwy'r grŵp ar-lein yn gwella eu dealltwriaeth a'u hyder.
- Roedd y gweithgareddau a drafodwyd yn ystod y gweithdai'n hyrwyddo'r defnydd o iaith gadarnhaol, a fabwysiadwyd gan y rhieni wrth i'r grŵp ddatblygu.

# Astudiaeth Achos 2

**Lefel 3 - Rhaglen Bwrpasol**
**Oedran: 3**
**Rhywedd: Gwrywaidd**
**Atgyfeiriwyd gan: Ymwelydd Iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr**
**Cefnogaeth arall: Cymorth Ymddygiad**

**Rheswm dros atgyfeirio:**
Pyliau rheolaidd o ddicter a thrallod, a oedd yn aml yn cynnwys y plentyn yn taro ei ben yn erbyn pethau. Adroddodd y fam anawsterau rheoleiddio a oedd yn effeithio ar y teulu cyfan (gall gymryd hyd at ddwy awr i'r plentyn dawelu)

**Asesiad: Anhawster Uchel SDQ**
Nododd yr SDQ 'emosiynol' ac 'ymddygiad' fel meysydd anhawster. Oherwydd oedran y plentyn a natur eu hymgysylltiad, crëwyd agenda bwrpasol i ymateb i anghenion unigol y plentyn a'r fam.

**Meysydd targed gwydnwch:** llythrennedd emosiynol a hunanreoleiddio
**Rhaglen Gymorth**
Defnyddiwyd chwarae cymeriad i hwyluso'r plentyn i adnabod a deall gwahanol emosiynau. Roedd technegau therapi drama yn cefnogi'r plentyn i ddatblygu iaith emosiynol, a defnyddiwyd symudiad i brofi gwahanol ffyrdd o ryddhau rhwystredigaeth mewn ffordd iach, hwyliog a diogel. Cymerodd y fam ran yn y sesiynau, a helpodd i ddatblygu strategaeth ar gyfer allanoli'r dicter a'r rhwystredigaeth, y gellid ei defnyddio gartref.

**Canlyniad**
**Ychydig o Anhawster SDQ**

**Meysydd i'w gwella:**
**Rheoleiddio a diogelwch y Plentyn**

**Hyder a chymhwysedd Rhieni**

Adroddodd y fam welliant sylweddol mewn rhai meysydd o reoleiddio. Roedd y strategaeth yn cael ei defnyddio'n aml yn y cartref, ac roedd hyn wedi gwella hyd cyfnodau o bryder y plentyn. Dywedodd y fam fod y rhan fwyaf o'r episodau dan reolaeth o fewn 20 munud (yn lle dwy awr). Roedd rhai anawsterau'n parhau.

Adroddodd y fam fod y plentyn yn dal i deimlo'n rhwystredig yn hawdd, ond mae'n ymwybodol bod hyn yn cyd-fynd â'u hoedran a'u cam. Adroddodd y fam fwy o hyder, a rhannodd ei bod yn dod â'r plentyn yn rhan o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar deimladau a chwarae.

**Cymorth Lefel 2 - Rhaglen Hunan-werth Strwythuredig**
**Oedran: 8**
**Rhywedd: Benywaidd**
**Atgyfeiriwyd gan: Rhiant ym Merthyr Tudful**
**Cefnogaeth arall: Llwybr ASD**

**Rheswm dros atgyfeirio**
Pyliau rheolaidd o ddicter tuag at gyfoedion, hyder isel a diffyg hunan-werth. Roedd y plentyn yn y broses o gael ei hasesu ar gyfer ADHD. Roedd y fam yn y broses o gael ei hasesu ar gyfer ADHD.

**Asesiad: Anhawster Uchel SDQ**
Nododd yr SDQ 'emosiynol' a 'chyfoedion' fel meysydd anhawster.

**Asesiad Gwydnwch**

**Adnoddau allanol: Canolig**
**Adnoddau mewnol: Isel**
**Adnoddau cymdeithasol: Isel**
**Meysydd targed gwydnwch: hunan-werth, optimistiaeth, cymhwysedd cymdeithasol ac empathi, hunan-reoleiddio.**

Roedd y plentyn yn ei chael yn anodd nodi unrhyw nodweddion cadarnhaol am ei hunan, ac yn cofio anawsterau cyfeillgarwch a oedd fel pe baen nhw'n peri dryswch a rhwystredigaeth iddi. Dangosodd y plentyn ddiffyg gallu i reoli gwrthdaro.

**Canlyniad**
**Ychydig o Anhawster SDQ**

**Adnoddau allanol: Canolig**
**Adnoddau mewnol: Canolig**
**Adnoddau cymdeithasol: Canolig**

**Meysydd i'w gwella: Hunan-barch a hunanhyder y plentyn**

Adroddodd y plentyn welliant sylweddol yn ei hunan-werth a'i hyder. Adroddodd y fam ei bod yn ymddangos yn llai ymosodol ac yn gallu sylwi pan oedd hi wedi cyflawni rhywbeth. Roedd ei gwaith yn hunan-reoleiddio yn dal i ddigwydd. Adroddodd y plentyn ei bod yn gallu defnyddio ei strategaethau weithiau, a bod ei mam yn ceisio ei helpu. Adroddodd y fam fod gwelliant o ran cyfeillgarwch, gyda rhai episodau o deimlo wedi'i gorlethu. Rhannodd y fam ei strategaeth gyda'r ysgol, a oedd yn ei chefnogi.

**Cymorth Lefel 3 - Rhaglen Bwrpasol**
**Oedran: 6**
**Rhywedd: Benywaidd**
**Atgyfeiriwyd gan: Teuluoedd Cydnerth RhCT**
**Cefnogaeth arall: Dim**

**Rheswm dros atgyfeirio**
Ymddygiad heriol yn y cartref a phyliau rheolaidd o drallod (dagrau/strancio/sgrechian). Mae'r fam yn ei chael yn anodd helpu'r plentyn i reoli ei hemosiynau ac yn cael trafferth yn deall y sbardunau.

**Asesiad: Anhawster Uchel SDQ**

**Nododd yr SDQ 'emosiynol' ac 'ymddygiad' fel meysydd anhawster. Nodwyd bod Tu Mewn Tu Allan yn rhaglen addas i helpu'r plentyn (a'r fam) i ddysgu ffyrdd o allanoli emosiynau a strategaethau iach i reoli dicter.**

**Meysydd targed gwydnwch: llythrennedd emosiynol a hunanreoleiddio**

**Rhaglen gymorth**
Y fam a'r plentyn yn cymryd rhan yn y rhaglen gyda'i gilydd. Yn gyntaf, cawsant eu cyflwyno i dasgau creadigol i hyrwyddo datblygiad llythrennedd emosiynol. Nesaf, cawsant eu cyflwyno i ioga gwydnwch a thechnegau meddwlgarwch. I ddechrau, roedd y plentyn yn cael trafferth cymryd rhan yn y gweithgareddau. Ar ôl dwy sesiwn, adroddodd y fam fod y plentyn yn eu defnyddio nhw ei hunan gartref (er nad oedd hi'n eu "hoffi nhw"). Anogwyd y plentyn i addasu'r gweithgareddau meddwlgarwch gyda'i syniadau ei hunan, a chreodd y fam 'gynllun meddylgar' a gyflwynwyd i weithgareddau dyddiol.

**Canlyniad**
**Ychydig o Anhawster SDQ**

**Meysydd i'w gwella: Rheolaeth a llythrennedd emosiynol y plentyn**

**Hyder a chymhwysedd Rhieni**
Adroddodd y fam welliant sylweddol mewn rheoleiddio a rhannodd fod y plentyn yn mynd â'i hunan i'w gofod tawel yn annibynnol ac yn cwblhau ei gweithgareddau. Adroddodd y fam hefyd eu bod wedi cyflwyno 5 munud myfyriol ar ddiwedd bob dydd, a oedd yn helpu ei threfn amser gwely. Nododd y fam fod y plentyn yn ymddangos fel pe bai'n cael ei sbarduno llai, ac roedd yn ymddangos fel pe bai'n gallu rheoli ei hymatebion cyntaf pan nad oedd pethau'n mynd ei ffordd hi.

# Adborth

## Boddhad Gwasanaeth

**98%**

o deuluoedd yn nodi y bydden nhw'n ein hargymell ni

**96%**

wedi sgorio'r broses yn glir o'r dechrau i'r diwedd

**99%**

o deuluoedd yn nodi profiad cadarnhaol gyda'n hymarferwyr



Donna,

Thank you so much for all the help, guidance + support you have given us.
It has been so nice to have a listening ear + that you have given us suggestions on how to support Raiden.

As a family, we have all enjoyed coming to the sessions. You have supported us all in different ways.

You as a person, were so friendly + welcoming, such a happy, bubbly person.

Thank you so much + we wish you all the best for your future + new job.




## Adborth am Gymorth Un i Un

*"Ro'n i'n meddwl bod y gwasanaeth yma'n anhygoel. Roedd wir angen hwn arna i, dw i wedi dysgu cymaint ac mae e'n ymdopi cymaint gwell"*

*"Roedd y sesiynau'n ddefnyddiol i ddysgu gwahanol sgiliau ymdopi i helpu fy mhlentyn i reoli ei hemosiynau"*

*"Roedd yn ddefnyddiol dysgu strategaethau newydd i helpu i reoli emosiynau fy mhlentyn. Mae ganddon ni'r sgiliau sydd eu hangen arnon ni, dw i mor ddiolchgar"*

*"Dw i wedi gweld gwahaniaeth yn y ffordd mae'n rheoli ei emosiynau. Mae hyn wedi gwella'r drefn ysgol iddo fe a phawb arall"*

*"Maen nhw nawr yn gallu rheoli eu hemosiynau a siarad am y ffordd maen nhw'n teimlo"*

# Adborth am y Buddion a Gafwyd

*“Sut galla i ryngweithio gyda’i emosiynau, sut i’w gael e i egluro sut mae’n teimlo”*

*“Mae hwn wedi fy helpu i i ddeall fy mhlentyn yn well”*

*“Mae gen i fwy o syniadau ynghylch sut i helpu fy mhlentyn”*

*“Mae gen i lawer o offer gwahanol i’w hychwanegu i fy mocs tŵls i helpu fy mhlentyn”*

*“Mae e’n fwy myfyriol wrth siarad ac mae’n deall ei emosiynau”*

*“Maen nhw nawr yn gallu rheoli eu hemosiynau a siarad am y ffordd maen nhw’n teimlo gartref”*

*“Wedi gwella lles y plentyn. Gwelliant enfawr.”*

*“Popeth, ei ymddygiad, ei hyder, ein perthynas”*

*“Mae’r cleient yn taro allan yn llai aml, ac yn gallu adnabod sut mae’n teimlo ac yn gwybod beth sydd ei angen arno i’w helpu.”*



# Adborth ar y Gweithdy




*"Mae'r gweithgareddau yma o fudd mawr i fi a fy mhlentyn"*

*"Mae'r gweithgareddau'n ddefnyddiol iawn i fy iechyd meddwl a fy lles i a fy mhlentyn"*

*"Helpodd y gweithgareddau i ddarparu strategaethau ymdopi ymarferol iawn i focs tŵls fy mhlentyn."*

*"Roedd modd i fi feddwl am yr iaith dw i'n ei defnyddio gyda fy mhlentyn a galla i nawr gael deialog gadarnhaol sy'n meithrin hyder gyda fy mhlentyn"*

**94%**

Yn teimlo'n fwy hyderus i gefnogi eu plant

**94%**

Yn teimlo bod y sesiwn yn ddefnyddiol

**100%**

Yn nodi y bydden nhw'n argymell i eraill

Yn gweithio mewn partneriaeth â

GIG CYMRU NHS WALES

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr BRIDGEND County Borough Council

MERTHYR TYDFIL County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL

RHONDDA CYNON TAF

Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Cwm Taf

Cwm Taf Morgannwg Early Years Transformation Programme

The Exchange

03302 020 283
**exchange-counselling.com**

The Property of Therapeutic Counselling Services © 2024